

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 29AIN O FEHEFIN 2020 TRWY SKYPE AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Arwel Davies, Bari Evans, Stanley Williams, Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Falmai Evans, Geraint Jones, Iwan Jones, Philip Williams, Hywel Davies a Ceri Davies.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Bari Evans ar y ddau gais cynllunio, eitemau 9A a 9B isod.

4. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Fai 2020 gan y Cyngorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi trwsio'r ffyrdd a oedd angen sylw a chodwyd.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r pryderon y cyn tenantiaid 21 Maes-y-Felin, Llanrhaeadr (sydd yn eiddo Cyngor Sir Ddinbych) a chytunodd y Cyngorydd Elfed Williams ysgrifennu at Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar bryderon y Cyngor Cymuned.

C. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cyngorydd Arwel Davies yn cadarnhau nid oes yna berchnogaeth wedi eu cofrestru ar y tir o gwmpas yr hen chwarel wrth Ysgol Prion. Y cam nesaf oedd gweld os oes yna hawliau mwynau yn y lleoliad a Chytunodd y Cyngorydd Davies i wneud yr ymholiad.

6. DIWEDDARAF BAND EANG YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd yr adroddiad y Cyngorydd Elfed Williams:-

"Mae tri opsiwn ar gael ar hyn o bryd.

Opsiwn 1 wrth gwrs aros am BT i gysylltu tai Saron a Prion hefo ffibr ond gall rhywun fod yn aros cryn amser i hyn ddigwydd.

Mae opsiwn dau a tri yn debyg sef system satellite WISP broadband. Beth ydi hyn ydi gosod satellite disc tua maint plât cinio ar ochr y tŷ i dderbyn y signal? Mae'r cwmnïau sy'n cynnig y rhain hefo rhwydwaith neu yn cynnig adeiladu mastiau yn yr ardal sydd yn dod ar broadband i'r disg satellite.

Mae dau gwmni lleol yn gallu cynnig hyn sef Vale WISP a Boyns Ltd y ddau wedi ei leoli yn Rhuthun

Dwi wedi bod mewn trafodaeth hefo'r ddau unai yn bersonol neu trwy e-bost yn y dyddiau diwethaf.

Vale WISP - mae Vale WISP o be ddwi'n gweld wedi bod mewn bodolaeth ers tua dwy flynedd a hefo rhyw faint o rwydwaith WISP broadband o gwmpas Clawddnewydd/Melin-y-wig/Derwen. Cwmni un person ydi Vale WISP sef Hamish Sennett. Mae o yn cynnig adeiladu rhwydwaith o fastiau sy'n gallu dod a broadband i Brion a Saron. Y gost fuasai o gwmpas £1500 (base cost) ac wedyn tua £400 i bob tŷ ychwanegol ac wedyn cost fisol o tua £30 y mis (o bosib plus VAT). Mae o angen tua 4 i 5 tŷ i gytuno er mwyn iddo wneud hyn mewn ffordd 'cost effective'.

Pe bai mwyn eisiau'r broadband hwyrach daw'r gost i lawr. Mae'n bosib cael grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y costau base ac wedyn dim ond y tal misol fuasai angen talu

ond gall hynny cymryd o ddeutu 8 i 10 wythnos i geisio am y grant. Os ydach chi eisiau broadband yn fuan gall cychwyn ar y gwaith a bydd hyn yn cymryd tua dwy neu tair wythnos i gwblhau a bydd rhaid i chi gyfrannu tuag at y base costs neu aros am grant ac wedyn gall o gychwyn ar y gwaith (8 i 10 wythnos i gael y grant wedyn 2 i 3 wythnos i osod y mastiau) Dydi o ddim yn fodlon talu am y costau base ei hun.

Mae Hamish yn credu'r gallu o roid 1Gbps i bob tŷ. Wedi edrych i mewn i hyn yn fwy manwl yn ddiweddar dwi ddim yn siŵr sut mae o yn gallu cynnig hyn.

Boyns Ltd - Mae Boyns wedi bod yn adeiladu ei rhwydwaith WISP dros y 10 mlynedd diweddar sydd yn fwy helaeth trwy Ddyffryn Clwyd na beth sydd gan Vale WISP. Ond mae o ei hun yn cyfadde', yn y cyfarfod cefais ac ef bore ma', dydi o ddim wedi buddsoddi cymaint yn y rhwydwaith dros y blynyddoedd. Mae hynny wedi newid yn ddiweddar ac mae o wedi buddsoddi £5000 yn ei rhwydwaith dim ond yn y mis diweddar hefo'r dechnoleg fwyaf diweddar ac yn edrych y cynyddu hynny dros y misoedd nesaf.

(Dwi'n gorfod datgan yn fan hyn mae Boyns wedi edrych ar ôl systemau ffon ac IT yn lle dwi'n gweithio ers 7 mlynedd bellach a dwi ddim wedi cael dim trafferth hefo gwasanaeth mae o yn ei gynnig)

Mae pum aelod a staff yn gwthio i'r cwmni ac ar gael i helpu.

Mae o'n cynnig talu am y costau base o flaen law ac wedi hawlio'r rhain yn ôl o Lywodraeth Cymru. Y gost i bob tŷ fuasai tua £30 plus VAT am y broadband bob mis a dim costau ychwanegol. Mae o yn gobeithio buasai tua deg o dai yn arwyddo i fyny yn ddelfrydol ond dydi hyn ddim yn angenrheidiol iddo gychwyn ar y gwaith.

Mae ei rhwydwaith satellite o bosib yn cyrraedd Prion yn barod ond fuasai'n rhaid iddo edrych i mewn i hyn fwy manwl. Ond fe hoffai cael mast arall ym Mhrion ac wedyn gallu danfon y signal ymlaen i Saron.

Dydi Boyns ddim yn cynnig cymaint o gyflymdra tua 32 download a 7 upload ond mae o yn edrych wrth fuddsoddi mwy yn y system i gael gwell cyflymder yn y system yn y dyfodol. Mae Boyns yn credu y gall cael system broadband mewn lle o fewn dwy neu tair wythnos ar y mwyaf os gall o gael bach o gymorth rhywun lleol i help adnabod lle y gall o roi dau fast sy'n mynd fel arfer ar sied fferm.

Dwi'n gorfod nodi dwi ddim yn ffafrio un system uwchben y llall, dwi wedi trio rhoi'r manylion i ti fel dwi wedi cael nhw a fuasai'n rhaid cadarnhau costau hefo unai Vale WISP neu Boyns. Dewis i ti a dy gymdogion fyddai hyn os ydach chi eisiau mynd hefo un system neu'r llall neu hefo'r yr un o gwbl. Mae yna fanteision ac anfanteision hefo'r ddau fel bob system.

Dwi wedi cael sgwrs bellach hefo Philip Burrows o Gyngor Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am helpu trio cael broadband allan i ardaloedd gwledig y Sir.

Yn gyntaf trafodais Nantglyn ar gyffiniau (sef rhai hefo rhif ffôn 01745550xxx). Roedd yn cytuno bod Openreach wedi datgan y bydd arolwg yn cael ei gwneud ond doedd o ddim yn meddwl bydd hyn yn digwydd yn sydyn ac o bosib y bydd hi beth bynnag 12 mis eto cyn bydd golwg o gael ffibr broadband i Nantglyn ac roedd hynny'n optimistaidd. Wedi dweud hynny dwedodd gall Openreach ei synnu a bydd pethau yn digwydd yn gynt.

Wedyn trafodais Prion, Penial a Saron. O dan y cynllun Local Full Fibre Network mae ardaloedd cefn gwlad i fod i dderbyn ffibr a bod hyn i fod i gael ei gwblhau cyn diwedd 2021, ac mae Prion yn dod o dan hwn. Ond fel sydd wedi digwydd o'r blaen hefo Openreach, unwaith mae'r cyfnod y project yma yn dod i ben hyd yn oed os dydi'r gwaith ddim wedi ei gwblhau dydi Openreach ddim yn parhau hefo'r gwaith. Y broblem arall dydi ardaloedd Sir Ddinbych ddim yn flaenoriaeth o dan y cynllun presennol ac felly roedd Philip Burrows yn

poeni os bydd Openreach yn disgyn tu ôl i'w amserlen bydd yr ardaloedd yma ddim yn derbyn ffibr.

Trafodais wedyn WISP (wireless broadband). Ei awgrymiad ef oedd, tymor hir, i gael ffibr i dai bobl. Fel y gwyddom gall WISP ddim cyrraedd pob tŷ oherwydd y dirwedd a coediach a hefyd os bydd yr arian sydd ar gael ar gyfer broadband yn mynd ar WISP o bosib nes ymlaen bydd yr arian yma ddim ar gael i ffibr.”

Trafodwyd a chadarnhawyd yr holiadur a pharatowyd gan y Cynghorydd Williams a phenderfynwyd rhyddhau'r holiadur i'r gymuned.

7 DIWEDDARAF MATERION “COFID-19” YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers y cyfarfod blaenorol y Cyngor.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc £13,634.25.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2020 £489.60.
2. HMRC am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2020 £122.40.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Cais Cynllunio: 23/2020/0422 - Codi estyniad, porth car/garej a newidiadau i annedd yn Dolwen, Llanrhaeadr, Dinbych.

B. Cais cynllunio: 23/2020/0435 - Tystysgrif datblygu gyfreithlon ar gyfer codi “eco-cabin” yn Old Farm, Llanrhaeadr.

10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Joseph Welch fod Ysgolion y Sir wedi eu hail agor erbyn hyn.

12. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Derbyniwyd adroddiadau o'r canlynol:-

- A: Tyllau yn gyffredinol yn y ffyrdd yn y gymuned.
- B. Baw cwm ar ffyrdd Saron.
- C. Arwyddion ffyrdd ar goll yn ardal Pant Pastynog, Prion.
- D. Perchnogaeth Carafán yn y Paddock yn Saron.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Orffennaf 2020 trwy Skype am 7.30 o'r gloch.